OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1714 (Cy.176)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - - 27 Mehefin 2006

Yn dod i rym - - 1 Medi 2006

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 25(3)(b), 28(1) ac (8), 36(2), 38(4), 39(2), (3), (5) a (7)(b), 40(3), 41(4), 42(2)(a), (3)(c), (4) a (5), 50(2), (4) ac (8), 52(5)(b), 120(2) a 124(1) a (3) o Ddeddf Addysg 2005(**1**) a pharagraff 6 o Atodlen 4 iddi, a pharagraffau 2(1), (2) a (4) a 3(1), (2) a (3) o Atodlen 6 iddi, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Medi 2006.

Dirymu a diwygio

2.—(1) Dirymir Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998(**2**), Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 1999(**3**) a Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2004(**4**).

(2) Dirymir o ran Cymru Reoliadau Addysg (Arolygwyr Cofrestredig) (Ffioedd) 1992(**5**).

(3) Yn Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005(**6**)—

(a) ym mharagraff (a) o reoliad 5, yn lle "adran 10 o Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996" rhodder "adran 28 o Ddeddf Addysg 2005"; a

(**1**) 2005 c. 18. Am ystyr rheoliadau a rhagnodi *gweler* adrannau 31, 43 a 50 (8) am "regulations" a "prescribed" .
(**2**) O.S.1998/1866.
(**3**) O.S. 1999/1440.
(**4**) O.S. 2004/784 (Cy.81).
(**5**) O.S.1992/2025.
(**6**) OS.2005/2911 (Cy.208).

(b) ym mharagraff (b) o'r rheoliad hwnnw, yn lle "a ragnodwyd yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998" rhodder "a ragnodwyd gan reoliadau neu a gyfarwyddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 39(2) neu 42(2) o'r Ddeddf honno".

Dehongli: cyffredinol

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod esgobaethol priodol", "ysgol yr Eglwys yng Nghymru", "ysgol Eglwys Loegr" ac "ysgol yr Eglwys Gatholig Rufeinig", ym mhob achos, yr ystyron a roddir i "appropriate diocesan authority", "*Church in Wales school*", "*Church of England school*" a "*Roman Catholic school*" gan adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**7**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Arolygu Ysgolion 1996(**8**) (a ddirymir gan Ddeddf 2005);

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl banc nac yn rhan o wyliau sy'n hwy nag wythnos a gymerir gan yr ysgol dan sylw; ac

ystyr "gŵyl banc" ("*bank holiday*") yw diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**9**).

(2) Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithred gael ei gwneud o fewn cyfnod penodedig yn cychwyn ar ddyddiad penodedig mae'r cyfnod yn cychwyn yn union ar ôl y dyddiad hwnnw.

(3) Er mwyn rhoi effaith lawn i adran 41(4)(c), mae'r cyfeiriad yn y ddarpariaeth honno at "the authority" i'w ddarllen, at ddibenion rheoliad 9(3), fel cyfeiriad at berchennog yr ysgol.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran neu at Atodlen (heb ymhelaethu ymhellach) yn gyfeiriad at adran o Ddeddf 2005 neu at Atodlen iddi.

RHAN 2

Arolygu Ysgolion

Dehongli: Rhan 2

4.—(1) Yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod o'r Arolygiaeth" ("*member of the Inspectorate*") yw'r Prif Arolygydd, unrhyw un neu rai o Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru ac unrhyw arolygydd ychwanegol a benodir o dan baragraff 2 o Atodlen 2;

ystyr "arolygiad" ("*inspection*") yw arolygiad o dan Bennod 3 o Ran 1 o Ddeddf 2005 (gan gynnwys arolygiad adran 28);

ystyr "arolygiad adran 28" ("*section 28 inspection*") yw arolygiad o dan adran 28;

ystyr "arolygydd cofrestredig" ("*registered inspector*") yw arolygydd a gofrestrwyd o dan adran 25;

(**7**) 1998 p.31, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/3037.
(**8**) 1996 p.57.
(**9**) 1971 p.80.

ystyr "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*"), mewn perthynas ag ysgol a gynhelir, yw corff llywodraethu'r ysgol neu, os nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig, yr awdurdod addysg lleol (yn ddarostyngedig, fodd bynnag, i reoliad 7(2));

mae i "cyllideb ddirprwyedig" yr ystyr sydd i "*delegated budget*" yn adran 49 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "cynllun gweithredu" ("*action plan*"), yn achos ysgol a gynhelir, yw'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn adran 39; neu, yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, yn adran 42;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Prif Arolygydd" ("*Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru;

mae i "tîm arolygu" yr ystyr a roddir i "*inspection team*" gan baragraff 3(1) o Atodlen 4;

ystyr "ysgol" ("*school*") (heb ymhelaethu ymhellach) yw ysgol y mae adran 28 yn gymwys iddi;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir; ac

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol arbennig sy'n dod o fewn adran 28(2)(d).

(2) Mae i gyfeiriadau yn y Rhan hon at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yr ystyr sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(**10**).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon, sy'n nodi ei bod yn ofynnol neu nad yw'n ofynnol bod camau arbennig yn cael eu cymryd, i'w darllen yn unol ag adran 44(1).

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon, sy'n nodi ei bod yn ofynnol neu nad yw'n ofynnol i ysgol wella'n sylweddol, i'w darllen yn unol ag adran 44(2).

Arolygwyr cofrestredig: ffi gofrestru

5. At ddibenion is-adran (3)(b) o adran 25, rhagnodir mai ffi o £150 yw'r ffi y mae'n rhaid iddi fynd gyda chais am gofrestru o dan yr adran honno.

Cyfnodau rhwng arolygiadau

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi, at ddibenion is-adran (1) o adran 28, pa mor aml y mae'n rhaid arolygu, o dan yr adran honno, ysgolion y mae'r adran honno'n gymwys iddynt.

(2) Rhaid i'r Prif Arolygydd sicrhau bod arolygiad adran 28 yn cael ei wneud o ran pob ysgol o'r fath bob chwe blynedd.

(3) Mae'r cyfnodau'n cychwyn ar—

(a) y dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol (o dan Ddeddf 1996 neu Ddeddf 2005); neu

(b) yn achos ysgol nad yw wedi'i harolygu o'r blaen (o dan y naill Ddeddf na'r llall), y dyddiad y derbyniwyd disgyblion gyntaf i'r ysgol.

Hysbysu o arolygiad

7.—(1) Pan fo arolygiad adran 28 wedi'i drefnu, rhaid i'r awdurdod priodol, at ddiben paragraff 6(a) o Atodlen 4, gymryd y cyfryw gamau y mae'n rhesymol ymarferol iddo eu cymryd i hysbysu—

(**10**) 1989 p.41. Diwygiwyd adran 22(1) gan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22), adran 2(2) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p.35) ac adran 116 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(p.38).

(a) yn achos ysgol a gynhelir a chanddi gyllideb ddirprwyedig, person sydd yn ei farn ef yn un o swyddogion priodol yr awdurdod addysg lleol;

(b) yn achos ysgol a gynhelir nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig, cadeirydd y corff llywodraethu;

(c) yn achos ysgol a chanddi lywodraethwyr sefydledig, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr hynny ac, yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Loegr neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol (os yw'n wahanol);

(ch) yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw awdurdod addysg lleol os yw'r Cynulliad neu'r awdurdod yn talu ffioedd o ran darparu addysg ar gyfer unrhyw berson yn yr ysgol;

(d) yn achos unrhyw ysgol y mae un o'i disgyblion cofrestredig yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, person sydd yn ei farn ef yn un o swyddogion priodol yr awdurdod lleol hwnnw; ac

(dd) yn achos ysgol uwchradd, y cyfryw aelodau o'r gymuned fusnes leol ag y gwêl yr awdurdod priodol yn dda eu cynnwys, o roi sylw, yn arbennig, i ba mor ddymunol yw hysbysu aelodau sy'n cyflogi cyn-ddisgyblion yr ysgol neu sydd wedi eu cyflogi'n ddiweddar, o'r amser y mae'r arolygiad i'w gynnal.

(2) Yn unol â'r diffiniad o "appropriate authority" a gaiff ei gynnwys ym mharagraff 1 o Atodlen 4, yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 8 mae "awdurdod priodol" yn cynnwys perchennog yr ysgol, yn achos ysgol arbennig nas cynhelir.

Cyfarfod â rhieni

8. Rhaid i'r awdurdod priodol, pan fydd yn trefnu cyfarfod yn unol â pharagraff 6(b) o Atodlen 4 os arolygiad adran 28 a drefnir—

(a) trefnu i'r cyfarfod gael ei gynnal cyn yr amser y mae'r arolygiad i gychwyn;

(b) wrth ddewis amser a lle ar gyfer y cyfarfod, roi sylw i ba mor gyfleus ydynt i'r rhieni;

(c) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig o leiaf dair wythnos ymlaen llaw o'r amser a'r lle y mae'r cyfarfod i'w gynnal—

(i) rhieni disgyblion cofrestredig yr ysgol ac, os yw un o'i disgyblion cofrestredig yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, person sydd ym marn yr awdurdod priodol yn un o swyddogion priodol yr awdurdod lleol; a

(ii) yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw awdurdod addysg lleol os yw'r Cynulliad neu'r awdurdod yn talu ffioedd o ran darparu addysg ar gyfer unrhyw berson yn yr ysgol a bod un o rieni'r person hwnnw yn gofyn am gael ei hysbysu;

(ch) peidio â chaniatáu i unrhyw un fod yn bresennol yn y cyfarfod ac eithrio—

(i) yr arolygydd sy'n arwain yr arolygiad a'r tîm arolygu;

(ii) unrhyw berson y mae'r arolygydd sy'n arwain yr arolygiad yn dymuno iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion darparu cymorth gweinyddol neu gofnodi'r hyn a ddywedir;

(iii) rhieni disgyblion cofrestredig yr ysgol ac, os yw un o'r disgyblion cofrestredig yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, person sydd ym marn yr awdurdod priodol yn un o swyddogion priodol yr awdurdod lleol hwnnw;

(iv) yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, person sydd ym marn yr awdurdod priodol yn un o swyddogion priodol y Cynulliad Cenedlaethol neu o unrhyw awdurdod addysg lleol os yw'r Cynulliad neu'r awdurdod yn talu ffioedd o ran darparu addysg ar gyfer

unrhyw berson yn yr ysgol a bod un o rieni'r person hwnnw'n gofyn am gael bod yn bresennol; a

(v) unrhyw aelod o'r Arolygiaeth sy'n monitro'r arolygiad o dan adran 24(2); a

(d) trefnu i'r arolygydd sy'n arwain yr arolygiad reoli'r cyfarfod ym mhob ffordd arall.

Adroddiadau arolygu

9.—(1) At ddibenion adran 36, rhaid cyflawni arolygiad adran 28 o fewn y cyfnod o bythefnos i'r dyddiad y dechreuodd yr arolygiad.

(2) At ddibenion yr adran honno rhagnodir fel y cyfnod y mae'r cyfryw adroddiad arolygu i'w lunio ynddo, y cyfnod o 35 o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad.

(3) At ddibenion adrannau 38(4)(c) a 41(4)(c), rhagnodir, fel y cyfnod y mae'n rhaid i'r awdurdod priodol neu'r perchennog, yn ôl y digwydd, gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod pob un o rieni cofrestredig disgybl cofrestredig yn yr ysgol yn cael copi o'r crynodeb o'r adroddiad arolygu, y cyfnod o ddeng niwrnod gwaith ar ôl derbyn yr adroddiad.

Cynlluniau Gweithredu

10.—(1) At ddibenion adran 39(2)(a) a 42(2)(a) rhagnodir, fel y cyfnod y mae cynllun gweithredu i'w baratoi ynddo o ran ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir, y cyfnod o ddeugain a phump o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y cafodd yr awdurdod priodol neu'r perchennog, yn ôl y digwydd, yr adroddiad arolygu.

(2) At ddibenion adran 39(3) a (5) ac adran 42(3) a (4) rhagnodir, fel y cyfnod y mae'r awdurdod priodol neu'r perchennog i ddosbarthu ynddo, yn unol â'r deddfiadau hynny, gopïau o'r cyfryw gynllun gweithredu a baratowyd ganddynt,—

(a) os nad yw'r person sy'n llunio'r adroddiad arolygu yn datgan ei fod o'r farn ei bod yn ofynnol bod camau arbennig yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol neu ei bod yn ofynnol i'r ysgol wella'n sylweddol, pum niwrnod gwaith o'r dyddiad y gorffennodd yr awdurdod priodol neu'r perchennog, yn ôl y digwydd, baratoi'r cynllun gweithredu;

(b) os yw'r arolygydd cofrestredig (yn achos adroddiad gan arolygydd cofrestredig) yn datgan mai dyna'i farn ef ond y datgenir hefyd fod y Prif Arolygydd yn anghytuno â'r farn honno, pum niwrnod gwaith o'r dyddiad y gorffennodd yr awdurdod priodol neu'r perchennog, yn ôl y digwydd, baratoi'r cynllun gweithredu; ac

(c) os yw'r person sy'n llunio'r adroddiad yn datgan ei fod o'r farn ei bod yn ofynnol bod camau arbennig yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol neu ei bod yn ofynnol i'r ysgol wella'n sylweddol, a naill ai bod y person hwnnw'n aelod o'r Arolygiaeth neu fod yr adroddiad yn datgan bod y Prif Arolygydd yn cytuno â'r farn honno, deuddydd o'r dyddiad y gorffennodd yr awdurdod priodol neu'r perchennog, yn ôl y digwydd, baratoi'r cynllun gweithredu.

(3) At ddibenion adran 39(3)(c) a 42(3)(c), os paratowyd cynllun gweithredu o ran ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir, rhaid i'r awdurdod priodol neu'r perchennog, yn ôl y digwydd, anfon copïau ohono at y canlynol (yn ychwanegol at y personau a grybwyllir yn adrannau 39(3) i (6) neu 42(3) a (4) yn ôl y digwydd)—

(a) ym mhob achos, at bob person a gyflogir yn yr ysgol ac sydd wedi gofyn am gopi; a

(b) yn achos ysgol uwchradd, at y Cynulliad Cenedlaethol (os nad oes gan y Cynulliad hawl fel arall i gael copi).

(4) At ddibenion cyfrifo'r cyfnod a ragnodwyd gan baragraff (2)(c) nid yw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Gwener y Groglith a dydd Nadolig nac unrhyw ddiwrnod sy'n wŷl banc i'w cyfrif.